

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 11eg Medi, 2017, yn Ffestri Capel Hebron, Llangwnnadr, o 7.30 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Harry Richards, Michael Strain, Glenys Williams

Ymddiheuriad : Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

38. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf yn dilyn gwyliau'r haf. Dymunodd yn dda i Mrs. Laurina Owen, gwraig y Cynghorydd Ifor Owen.

39. YMWELIAD DR. O.G. MORRIS O FEDDYGFA RHYDBACH

Croesawodd y Cadeirydd Dr. O.G. Morris i'r cyfarfod i drafod y trafferthion sydd o gynnal dwy Feddygfa yn yr ardal, Botwnnog ac Abersoch. Dywedodd Dr. Morris y bu i'r Cyngor yma gefnogi'r bwriad o gau'r Feddygfa yn Abersoch dair blynedd yn ôl ond bu i'r Meddygon roi o'u gorau i gynnal y ddwy Feddygfa i fynd. Bellach dywedodd nad oedd yn realistig cadw'r Feddygfa yn Abersoch i fynd hyn oherwydd pwysau gwaith ac hefyd bydd Meddyg yn ymddeol ymhen y flwyddyn ac yna dim ond dau Feddyg fydd ym Motwnnog. Mae'r Feddygfa yn Abersoch yn agored dri bore'r wythnos ond yn aml iawn nid yw hynny'n bosibl, hefyd mae'r ymwelwyr bellach yn cael eu cyfeirio i Ysbyty Bryn Beryl ac felly mae hyn wedi dwyn y pwysau o Abersoch.

Trafodwyd y mater a **phenderfynwyd** yn unfrydol cefnogi'r bwriad i gau'r Feddygfa yn Abersoch er galluogi rhoi gwasanaeth cynhwysfawr ym Motwnnog.

Yn sgil y drafodaeth codwyd y mater fod amryw yn teithio ar drafniaeth cyhoeddus i'r Feddygfa ym Motwnnog a gofynnwyd i Dr. Morris a fyddai ganddynt hwy wrthwynebiad i'r cleifion aros i fewn yn yr adeilad i ddiwyl y bws. Dywedodd y byddant yn fodlon i hyn ac efallai y gellid rhoi mainc o dan y canopi ger y drws i'r cleifion aros.

Yn dilyn gohebu a'r Adran Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd, er canfod a fyddai modd cael gosod lloches bws ger y Feddygfa, cafwyd ar ddeall nad yw Cyngor Gwynedd wedi gosod llochesi bws ers tua thair blynedd oherwydd prinder cyllid. Aethant ymlaen ymhellach a dweud fod "rhai llochesi wedi eu gosod ond y Cyngor Cymuned sydd wedi talu am rhain gydag arweiniad Cyngor Gwynedd." Rhoddwyd manylion am gôst lloches bws a.y. Addawodd Y Cynghorydd Glyn Roberts edrych ar y rhain er canfod faint fyddai'n gostio i adeiladu un ein hunain.

Pwynt arall godwyd oedd i ofyn i'r Cwmni Bysiau Berwyn a fyddai modd iddynt aros ennyd er gweld a oedd claf eisiau cael ei godi o'r Feddygfa.

Penderfynwyd gweithredu'n unol a'r awgrymiadau uchod.

40. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd ffurflen gan Y Cynghorydd Glyn Roberts a nodir hynny o dan yr eitem berthnasol.

41. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 10fed Gorffennaf, 2017.

MATERION YN CODI

(a) Eitem 31 Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) Eitem 28(c) Gwefan

Adroddodd y Cynghorydd Michael Strain fod person wedi ei benodi i sefydlu gwefan i Llanw Llyn a byddai'r manylion ar gael yn rhifyn mis Medi o'r misolyn. Dywedodd y Clarc y byddai'n cysylltu a'r Swyddog ac adrodd yn ôl.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(b) Eitem 34 – Materion Ffyrdd

Nodwyd nad oedd y llwybrau wedi eu barbio a dywedodd y Clarc y byddai'n cysylltu unwaith yn rhagor a Mr. J.A. Pozzi.

O berthynas i'r arwyddion i ddynodi'r Eglwys a'r Ffynnon ym mhentref Bryncroes, deallwyd fod grantiau yn cael eu rhoi allan i osod arwyddion brown a dywedodd y Clarc y byddai'n gwneud ymholiadau pellach.

Ynglyn a'r lloches bws ym Motwnnog – gweler adroddiad o dan eitem 39 uchod.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

42. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn i sylw'r Cyngor:

- (a) Cais C17/0804/32/LL – estyniad blaen a sied – Bwthyn Ty Mawr, Bryncroes.
- (b) Cais C17/0696/32/LL – adeiladu adeilad amaethyddol newydd i gadw gwartheg dros y gaeaf – Bodgaeaf Isaf, Bryncroes.
(Datganodd y Cynghorydd Glyn Roberts diddordeb yn y cais yma ac ymadawodd a'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio. Arwyddwyd y ffurflen berthnasol ganddo hefyd).

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

43. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen.

44. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd :

(a) Gofyn i'r Adran Priffyrdd roddi sylw i'r tyllau edrych ger Penrhos/Annedd Wen, Penygroeslon a Thanyffordd, Bryncroes. Hefyd am iddynt farbio pen y clawdd yng Ngroeslon Siop Lwyd, Bryncroes.

(b) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Bach, Botwnnog.

Tynnwyd sylw gan y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir (drwy ei fam Y Cynghorydd Glenys Williams yn ei absenoldeb) iddo dderbyn nifer o gwynion fod y lori ailgylchu yn gadael llanastr ar eu holau'n wythnosol.

Penderfynwyd anfon gair pellach at Mr. Steffan Jones, Uwch Reolwr Priffyrdd a Bwrdiestrefol, Cyngor Gwynedd, i dynnu ei sylw at y cwynion hyn.

45. **TOILED CYHOEDDUS YN SARN MELLTEYRN**

Cyflwynwyd llythyr o gadarnhad gan Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, Cyngor Gwynedd, yn cadarnhau y bydd toiled cyhoeddus ym mhentref Sarn Mellteyrn yn cau ar 1af Hydref, 2017.

Tynnwyd sylw fod yna doiledau yng Nghanolfan Congl Meinciau, Botwnnog, a **phenderfynwyd** anfon gair at Mr. Darren Morley, Rheolwr Canolfan Fenter Congl Meinciau, yn gofyn a fyddant yn fodlon agor eu drysau i'r cyhoedd gael defnyddio'r cyfleusterau.

46. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol a **phenderfynwyd** cyfrannu fel a ganlyn:

Cyfeillion Mynwent Mellteyrn	£125
Grwp Mynediad Dwyfor	£ 70

47. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Adroddodd y Clarc iddi bellach dderbyn cadarnhad gan y BDO fod y ffurflen flynyddol wedi ei dychwelyd ac ei bod yn ofynnol i'r cyfryw gael el chymeradwyo gan y Cyngor ac fod unrhyw farn yn deillio o'r archwiliad yn cael

ei gyflwyno i'r aelodau ac fod cynllun gweithredu ar y materion hynny i'w drefnu. Dau fater ddaethpwyd i sylw'r Cyngor y tro hwn sef :
"Nid oes gan y Cyngor wefan ac mae hyn wedi mynd yn groes i Ddeddf Llywodraeth

(Democratiaeth)(Cymru) 2013, adran 55.

Nid yw'r Cyngor yn cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau; mae hyn yn groes i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Ddeddf Lleoleiddio 2011."

(manyllion llawn yn amgaeedig gyda'r cofnodion).

Eglurodd y Clarc iddi egluro'r sefyllfa i Swyddog o'r BDO fod cynlluniau ar y gweill i sefydlu gwefan o dan adain Llanw Llyn ac y teimlid y byddai gwybodaeth am y Cyngor yn mynd ehangach fel hyn na phetai'r Cyngor yn sefydlu wefan ar ben eu hunain – cytunai'r Swyddog â'r sylw. Ymhellach 'roedd wedi egluro fod camau ar droed i sefydlu Cofrestr buddiannau ac eto 'roedd y Swyddog yn hapus ar hynny.

Er cydymffurfio a gofynion y BDO **penderfynwyd** :

- a) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Clarc fel Swyddog Ariannol Cyfrifol i arwyddo rhan 'cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014' o'r ffurflen flynyddol.
- b) Symud ymlaen i sefydlu gwefan cyn gynted ag sydd yn bosibl yn dilyn gair â Swyddog benodwyd gan Llanw Llyn.
- c) Symud ymlaen i gadw cofrestr buddiannau mor fuan a bo modd.

O berthynas i'r wefan nodwyd beth oedd yn ofynnol ond hefyd 'roedd y BDO yn dweud o "dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 dylai'r wefan fod yn Gymraeg a Saesneg."

Penderfynwyd gwneud ymholiadau ag Un Llais Cymru er canfod a oedd hyn yn hanfodol ai pheidio.

48. AWDURDOD I DALU

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Y Clarc	£372.55
HMRC	£ 93.20
Cyngor Gwynedd (etholiadau)	£354.00